Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Potteries

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â The Potteries

Agorwyd ysgol The Potteries ym mis Tachwedd 2012. Mae'r ystafell ddosbarth wedi'i lleoli mewn tŷ mawr yn Aber-miwl ger y Drenewydd, sydd hefyd yn gartref plant. Mae The Potteries yn ganolfan asesu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynychu rhaglen 26 wythnos, sy'n cynnwys asesiad 16 wythnos, cyn symud ymlaen i leoliadau tymor hir.

Mae'r perchennog, sef CareTech UK, yn gwmni cyfyngedig, sy'n berchen ar gartrefi plant ledled Cymru a Lloegr. Mae'r cartref plant wedi'i gofrestru gydag AGGCC ar gyfer hyd at bedwar o bobl ifanc rhwng 10 ac 18 oed. Mae tri disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd. Cânt i gyd eu lleoli, a'u gofalu amdanynt, gan awdurdodau lleol yn Lloegr, ac mae ganddynt gynlluniau addysg a gofal iechyd. Nodwyd mai'r prif angen yw anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg amser llawn ar gyfer yr holl bobl ifanc sy'n cael eu lleoli yn y cartref plant. Mae gweithwyr gofal preswyl yn cynorthwyo'r pennaeth o ddydd i ddydd. Maent yn mynychu ymweliadau addysgol a gweithgareddau chwaraeon gyda'r disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol. Mae pennaeth addysg yn goruchwylio'r ddarpariaeth addysg ar draws ysgolion y cwmni. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2010. Hwn yw arolygiad llawn cyntaf yr ysgol.

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn elwa ar arweinyddiaeth gref a chyfeiriad strategol clir. Mae arweinwyr wedi sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau i sicrhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn cael eu hymgorffori'n dda yng ngwaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r berthynas weithio gadarnhaol rhwng staff a disgyblion a'r dull cyson o reoli ymddygiad yn effeithio'n sylweddol ar bresenoldeb, cymhelliant a lles disgyblion. Mae staff yn gwybod anghenion a diddordebau'r disgyblion yn dda. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n helpu disgyblion i ailymgysylltu ag addysg, gwneud cynnydd â'u dysgu a throsglwyddo'n llwyddiannus i leoliadau tymor hir.

Mae'r ysgol yn bodloni holl Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig:  Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safle ac adeiladau llety mewn ysgolion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Gwella'r ffordd y caiff llythrennedd ei gydlynu a'i olrhain ar draws y cwricwlwm

A2 Cynyddu cyfleoedd i staff rannu a dysgu oddi wrth arfer dda

A3 Gwella cyfleusterau ar y safle i ddisgyblion chwarae a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth

## Beth sy’n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori’r perchennog i ddiwygio’i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae’r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i’r argymhellion. Dylid dosbarthu copïau o’r cynllun hwn hefyd, neu grynodeb ohono, i’r holl rieni/gofalwyr yn yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar y modd y mae darpariaeth yr ysgol yn galluogi disgyblion i ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu ac ailymgysylltu’n llwyddiannus ag addysg, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Barn

Ni wnaeth arolygwyr lunio barn ar gyfer safonau.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Barn

Ni wnaeth arolygwyr lunio barn ar gyfer lles.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu agweddau disgyblion at ddysgu, gan wella'u hunan-barch a'u paratoi ar gyfer trosglwyddo'n llwyddiannus. Mae disgyblion yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth i gynllunio'u hamserlenni, sy'n adlewyrchu eu diddordebau personol yn dda. Mae'r holl ddisgyblion yn dilyn y pynciau craidd, sef Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn ogystal ag ystod o fodiwlau achrededig defnyddiol fel hylendid cegin sylfaenol, a chynllunio, paratoi a choginio pryd grŵp. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau addysgol hefyd, fel ymweliadau â'r gerddi sŵolegol yng Nghaer a phentref Fictoraidd Blists Hill. Mae'r ymweliadau hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae trefniadau gwerthfawr ar waith i sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon tîm ac unigol wythnosol fel pêl-droed, chwaraeon raced a golff. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion i ddeall pwysigrwydd gweithio fel rhan o dîm a chadw'n heini ac iach.

Mae'r pennaeth yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau gwaelodlin yn dda i gynllunio gwersi sy'n bodloni anghenion dysgu'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae cynllunio tymor byr yn nodi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi, ac o bryd i'w gilydd, mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda mewn gwersi galwedigaethol i gymharu prisiau cynhwysion mewn archfarchnadoedd lleol ac i brofi tymheredd pysgod tuag at ddiwedd yr amser coginio. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i ddisgyblion ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau ac at wahanol ddibenion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Nid yw cynllunio tymor byr ar draws yr holl bynciau yn adeiladu'n ddigon da ar ddysgu blaenorol disgyblion. Nid yw gwersi bob amser yn dilyn ei gilydd yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn elwa ar brofiad dysgu cydlynol.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o gyflawniadau disgyblion mewn addysg. Mae'r pennaeth a'r staff gofal preswyl yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu cyfleoedd dysgu pwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion emosiynol disgyblion, eu cryfderau a'u diddordebau personol. Mae'r berthynas weithio gadarnhaol rhwng staff a disgyblion a'r dull cyson o reoli ymddygiad yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb, cymhelliant a lles disgyblion. Mae gan staff gofal preswyl rôl bwysig mewn cynorthwyo disgyblion i ailymgysylltu â'u haddysg ac mewn cyflwyno ystod eang y gwersi galwedigaethol a hamdden oddi ar y safle.

At ei gilydd, mae staff yn cyflwyno gwersi strwythuredig, gydag amcanion dysgu clir. Mewn llawer o wersi, mae staff yn cyflwyno ystod o weithgareddau a thasgau diddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn gweddu i'w hanghenion a'u galluoedd yn addas. Yn y gwersi hyn, mae staff yn symud dysgu disgyblion ymlaen ar gyflymdra priodol ac yn defnyddio holi'n effeithiol i asesu a herio dealltwriaeth disgyblion. Mewn rhai gwersi, mae staff yn defnyddio holi'n fedrus i herio disgyblion i ymestyn eu hatebion llafar a rhoi rhesymau ac esboniadau ar gyfer eu safbwyntiau. Fodd bynnag, mewn rhai pynciau, dibynnir yn ormodol ar daflenni gwaith masnachol. Er bod y rhain yn rhoi strwythur cychwynnol defnyddiol i ddisgyblion ailymgysylltu ag addysg, maent hefyd yn cyfyngu ar ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, rhag datblygu fel dysgwyr annibynnol a chyflawni cystal ag y gallent.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae staff yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion yn erbyn amcanion dysgu penodol a thargedau ymddygiad yn ystod, ac ar ddiwedd, pob gwers. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cymryd rhan yn dda yn y drafodaeth hon ac yn myfyrio'n briodol ar eu hymdrech a'u cynnydd eu hunain.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae olrhain a monitro ymddygiad a lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn dwyn gwybodaeth bwysig o ystod eang o ffynonellau at ei gilydd sy'n darparu targedau lles ystyrlon ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae staff yn gyfarwydd â'r targedau hyn ac yn eu defnyddio'n rheolaidd mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod fach o wasanaethau hynod arbenigol i gefnogi anghenion lles disgyblion. Er enghraifft, mae'r holl ddisgyblion yn yr ysgol yn mynychu asesiad therapiwtig wythnosol gwerthfawr mewn ysgol arall yn y sefydliad. Mae'r therapyddion yn cysylltu'n agos â'r ysgol ac yn gwneud argymhellion pwysig ynglŷn ag anghenion therapiwtig disgyblion yn y dyfodol. Mae'r pennaeth yn ymgorffori'r argymhellion hyn mewn adroddiad asesu addysg manwl. Mae hyn yn helpu swyddogion lleoli wrth iddynt wneud penderfyniadau am leoliadau tymor hir.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o asesiadau i greu gwaelodlin o alluoedd dysgu disgyblion. Mae hyn yn helpu'r ysgol i nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion meddygol a darparu cymorth addas mewn modd amserol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r arfer o osod a monitro targedau penodol ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo'r pennaeth a'r staff gofal preswyl i weithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu dull cyson o reoli ymddygiad. Mae staff yn rheoli'r achosion prin o ymddygiad heriol yn fedrus ac yn llwyddo i ailennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu.

Mae trefniadau ar gyfer hyrwyddo presenoldeb da yn glir ac yn cael eu deall yn dda gan staff. Er enghraifft, pan fydd disgyblion yn gwrthod mynychu gwersi, mae staff yn gweithio'n sensitif gyda nhw i'w hannog i fynychu ac ailddechrau'r diwrnod yn gadarnhaol. O ganlyniad, mae presenoldeb bron pob un o'r disgyblion yn gwella'n sylweddol o gymharu â lleoliadau blaenorol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i gynnwys yr holl ddisgyblion mewn gwneud penderfyniadau am eu haddysg. Er enghraifft, mae'r pennaeth a'r disgyblion yn

trafod amserlenni ar brynhawn dydd Gwener. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu a rhannu eu pryderon ynghylch gweithgareddau penodol. Mae hyn yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnwys themâu trosfwaol perthnasol, fel ffyrdd iach o fyw, cadw'n ddiogel a hawliau a chyfrifoldebau. Mae'r gwersi hyn yn hynod bersonoledig ac yn cysylltu'n dda â thargedau disgyblion. Mae asiantaethau allanol, fel gweithwyr iechyd proffesiynol, yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i gyflwyno sesiynau hynod arbenigol sy'n cefnogi datblygiad personol disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae staff a disgyblion yn The Potteries yn elwa'n fawr ar arweinyddiaeth gref. Mae uwch arweinwyr wedi creu ethos cynhwysol ac maent yn cyfleu gweledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar ddarparu amgylchedd dysgu diogel ble gall disgyblion ailymgysylltu ag addysg, meithrin perthnasoedd parchus a datblygu'r hyder a'r medrau sydd eu hangen arnynt i drosglwyddo'n llwyddiannus. Mae staff ar bob lefel yn cefnogi'r weledigaeth hon yn dda ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i fodloni anghenion cymdeithasol, emosiynol a dysgu disgyblion. O ganlyniad, mae'r weledigaeth yn treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol.

Un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r gwaith tîm hynod effeithiol rhwng y staff gofal preswyl a'r pennaeth. Ceir rhaglen ddefnyddiol o gyfarfodydd staff i sicrhau bod cyfathrebu am ddysgu, ymddygiad a gofal disgyblion yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn darparu hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer y tîm gofal preswyl i gynnwys targedau addysg mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol. Mae hyn yn sicrhau bod gan y gweithgareddau hyn ddiben clir a deilliannau dysgu mesuradwy. Mae staff yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant hwn yn fawr, a'r cyfle y mae'n ei ddarparu i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau dysgu hyn sydd wedi'u cynllunio'n dda ac yn cael eu cyflwyno'n fedrus yn ymestyn dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddeilliannau disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn cysylltu'n dda â phennaeth addysg y perchennog. Gyda'i gilydd, maent wedi rhoi fframwaith cadarn ar waith i sicrhau ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol. Mae'r fframwaith hwn yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol a gesglir yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys adborth gan ddisgyblion, staff a swyddogion lleoli. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio deilliannau arsylwadau gwersi ac yn craffu ar ddogfennau'n dda i nodi targedau addas ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae arweinwyr yn gwybod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn dda. Mae gan yr ysgol hanes profedig mewn mynd i'r afael ag argymhellion o ymweliadau monitro Estyn ac o ran sicrhau gwelliannau i ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi datblygu partneriaethau defnyddiol gydag uwch arweinwyr mewn ysgolion eraill i arsylwi a rhannu arfer dda. Mae hyn wedi helpu i ffurfio gwelliannau i'r cwricwlwm, dyrannu staff gofal preswyl i weithgareddau dysgu a gweithdrefnau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i staff sy'n cyflwyno profiadau dysgu arsylwi a rhannu arfer dda wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r ystafell ddosbarth yn cynnwys offer ac adnoddau priodol i gyflwyno'r cwricwlwm.  Mae'r ysgol yn defnyddio cyfleusterau yn y gymuned yn dda i ymestyn a gwella profiadau dysgu disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i thir i gyfoethogi profiadau hamdden a dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o ofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2018